

# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

## Y Bil Pysgodfeydd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
2. Yn dilyn cwblhau camau craffu Tŷ'r Arglwyddi, cyflwynwyd y Bil Pysgodfeydd ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 2 Gorffennaf 2020. Cynhaliwyd Ail ddarlleniad ar 1 Medi ac mae diwygiadau wedi cael eu cyflwyno ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (a fydd yn cael ei gynnal 8–17 Medi). Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil ar gael yma (**ond mae'n bosibl y bydd yn newid yn dilyn cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin**):

[Dogfennau'r Bil – Bil Pysgodfeydd 2019–21 – Senedd y DU \(y cam yn dilyn Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi\)](#)

### Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y bydd y Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol i'r DU weithredu fel gwladwriaeth arfordirol annibynnol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr 1982 (UNCLOS) ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

### Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
5. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer:
  - amcanion polisi mewn perthynas â physgodfeydd, pysgota a dyframaethu, datganiadau pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd;
  - mynediad i bysgodfeydd Prydain;
  - trwyddedu cychod pysgota;
  - pennu a dyrannu cyfleoedd pysgota;
  - creu cynlluniau ar gyfer codi tâl am ddal pysgod môr heb yr awdurdod i wneud hynny;
  - grantiau ar gyfer pysgota, dyframaethu neu gadwraeth forol;
  - adennill costau sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau cyhoeddus sy'n ymwneud â physgod neu bysgota;
  - rhoi pwerau i wneud darpariaethau pellach sy'n gysylltiedig â physgodfeydd, dyframaethu neu anifeiliaid y dŵr;

- gwneud darpariaeth ar gyfer is-ddeddfau a gorchmynion mewn perthynas â chamddefnyddio pysgodfeydd môr; ac at ddibenion cysylltiedig.

### **Diweddariad ar y sefyllfa ers cyhoeddi'r ail Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

6. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 12 Chwefror 2020, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd gerbron Senedd y DU ar 29 Ionawr 2020. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar 8 Gorffennaf, yn dilyn diwygiadau a wnaed i'r Bil yn ystod cam craffu Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r Bil wedi cyrraedd Tŷ'r Cyffredin ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor.
7. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn cynnwys diwygiadau a wnaed hyd at ac ar 7 Medi (a chanlyniad diwrnod cyntaf ystyriaethau'r Pwyllgor ar 8 Medi). Mae hyn yn galluogi gosod, yn unol â Rheolau Sefydlog, o fewn pythefnos i'r diwygiadau gael eu cyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin.
8. Mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau a gyflwynwyd ar ôl 7 Medi (ac a gafodd eu hystyried yn ystod diwrnodau hwyrach y Pwyllgor), bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at bob Aelod o'r Senedd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i roi rhagor o wybodaeth ac i gadarnhau canlyniadau ystyriaethau'r Pwyllgor, cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.
9. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Bil, wrth iddo barhau ar ei daith drwy Senedd y DU. Mae Cymal 45 yn sicrhau estyniad sylweddol i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â physgota, pysgodfeydd a materion sy'n gysylltiedig ag iechyd pysgod, y tu hwnt i Gymru i barth Cymru, ac mae'n alinio cymhwysedd y Senedd â phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru.
10. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y Bil hwn yn fesur dros dro, nes bod Bil Pysgodfeydd ar gyfer Cymru yn cael ei gyflwyno gerbron y Senedd.

### **Diwygiadau i'r Bil a gyflwynwyd ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) y mae angen cydsyniad ar eu gyfer.**

11. Mae'r diwygiadau canlynol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ac maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cyflwynwyd diwygiadau gan Llywodraeth ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 2 Medi, a chyflwynwyd diwygiadau gan y gwrthbleidiau ar 3 Medi:

**Diwygiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU (yn nhrefn y cymalau)**

12. Cymal 1 (diwygiad 1) – diwygiwyd yr amcan cynaliadwyedd gan Dŷ'r Arglwyddi, ac mae diwygiad pellach wedi cael ei gyflwyno i fynd yn ôl i'r geiriad gwreiddiol.
13. Mae Cymal 2 (diwygiad 2) yn estyn y cyfnod o amser ar gyfer cyhoeddi'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd o 18 mis i 24 mis.
14. Mae Cymal 18 (diwygiad 5) yn dileu'r diwygiad a wnaed yn Nhŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â gofyniad glanio cenedlaethol.
15. Mae Cymal 27 (diwygiad 6) yn dileu diwygiad a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, *cyn* gwneud penderfyniad ynghylch y DU, gadw isafswm dyraniad o gyfleoedd pysgota yn Lloegr ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector ac ar gyfer cychod deg metr neu'n llai.
16. Mae Cymal 35 / Atodlen 6 (diwygiad 57) yn darparu y caiff cynlluniau cymorth ariannol sy'n cael eu sefydlu gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau yn Atodlen 6 gynnwys gofynion i gyhoeddi gwybodaeth am gymorth ariannol a roddir o dan y cynllun (rhoddir pwerau cyfatebol i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill hefyd).
17. Mae Cymal 41 (diwygiad 7) yn egluro pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan Gymal 38 neu 40 mewn perthynas â physgota môr gan gychod o Gymru y tu allan i barth Cymru, mater sydd hefyd o fewn cwrpas pwerau cyfatebol Gweinidogion Cymru a roddir gan Atodlen 8.
18. Mae Cymal 48 (diwygiad 8) yn dileu'r diwygiad a wnaed gan Dŷ'r Arglwyddi mewn perthynas â monitro electronig o bell.
19. Mae Cymal 51 (diwygiad 9) yn newid y diffiniad o'r maint cyfeirio cadwraethol lleiaf.
20. Mae Cymal 53 a chymal newydd (diwygiad 55 a Chymal 1 newydd) yn cyflwyno atodlen newydd ar warchod morloi ac yn cadarnhau'r dyddiad y mae'n dod i rym.
21. Mae Atodlen 2 (diwygiadau 22 a 23) yn gwneud mân ddiwygiadau i Orchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Rheoleiddio Rhwydi a Gêr Pysgota Arall) 2001, sy'n parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â pharth Cymru, i ddileu geiriau diangen mewn darpariaeth sy'n ymwneud â phwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain.
22. Mae Atodlen 3 (diwygiad 27) yn diweddarau'r diffiniad o "swyddogaeth drwyddedu" fel ei fod yn cynnwys swyddogaethau o dan gymal 16.

23. Mae Atodlen 4 (diwygiadau 29 – 35) yn diwygio Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ynghylch y ffordd y ceir rhoi trwydded ac mewn perthynas â'r ffordd y ceir cyflwyno hysbysiad i amrywio, atal neu dynnu trwydded yn ôl. Mae'r diwygiadau'n cyflwyno proses gyflymach ar gyfer rhoi trwyddedau dros dro i gychod tramor. Bydd y drwydded dros dro yn para am bythefnos, ac ar ôl hynny rhaid iddo gael ei disodli a thrwydded a roddir yn y ffordd arferol.
24. Mae diwygiad 48 i Atodlen 4 yn dirymu dau o Offerynnau Statudol Gweinidogion Cymru a gyflwynwyd y llynedd mewn perthynas â thrwyddedu cychod tramor yn barod ar gyfer y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ond sydd bellach wedi cael eu disodli gan ddarpariaethau'r Bil:
- Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Cymru) 2019
  - Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) (Cymru) 2019
25. Mae diwygiad 49 i Atodlen 4 yn ddiwygiad technegol sy'n egluro'r darpariaethau trosiannol sy'n berthnasol i'r newid o'r gyfundrefn drwyddedu yn Neddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 i'r gyfundrefn drwyddedu yn y Bil.
26. Mae Atodlen 8 (diwygiad 50) yn egluro cwmpas pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan baragraff 6 neu 8 o Atodlen 8 mewn perthynas â physgota môr gan gychod o Gymru i tu allan i barth Cymru.
27. Mae Atodlen 9 (diwygiad 52) yn ddiwygiad technegol a gyflwynir i ddiweddarar croesgyfeiriad at Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 i sicrhau ei fod yn cyfeirio at y rheoliadau presennol.
28. Mae Atodlen 10 (diwygiad 53) yn dirymu Rheoliad (EU) 2017/2403 Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar reoli fflydoedd pysgota allanol mewn ffordd gynaliadwy (SMEFF) fel na fydd bellach yn gyfraith yr UE a ddargedwir, a chyflwynir 59 a 60 i wneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn perthynas â'r rhwymedigaeth glanio ac estyn esemptiadau presennol.
29. Mae atodlen newydd (Atodlen 1 newydd) yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Gwarchod Morloi 1970 a'r Gorchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985. Mae'r diwygiadau'n gwahardd lladd, niweidio neu symud morloi yn gyffredinol, ac yn cyfyngu ar yr amgylchiadau y caniateir gwneud hynny.

### **Diwygiadau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau (yn nhrefn y cymalau)**

30. Cymal 1 – Cyflwynir nifer o ddiwygiadau ar gyfer Cymal 1:
- Byddai diwygiad 61 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried yr amcanion pysgodfeydd wrth arfer eu swyddogaethau pysgodfeydd.

- Byddai diwygiad 71 yn ychwanegu, at yr amcanion pysgodfeydd, yr amcanion "ased cyhoeddus" a "diogelwch a'r gweithlu", fel y'u diffinnir yn niwygiad 72;
- Cynigir diwygiad 74 i ychwanegu "osgoi dirywio'r amgylchedd dyfrol" at y diffiniad o'r amcan ecosystem;
- Mae diwygiad 75 yn newid y diffiniad o'r "amcan ecosystem" i gynnwys "gwrthdroi effeithiau negyddol ar ecosystemau morol ymhob amgylchiad";
- Mae diwygiad 76 yn newid y diffiniad o'r "amcan ecosystem" i "atal dal rhywogaethau sensitif yn anfwriadol ym mhob amgylchiad";
- Byddai diwygiad 77 yn ychwanegu "cynhyrchu data gwyddonol mewn amser real" at y diffiniad o "amcan tystiolaeth gwyddonol";
- Mae diwygiad 78 yn dileu'r amcan ar gyfer glanio is-ddalfa lle bo hynny'n briodol;
- Byddai diwygiad 79 yn estyn y diffiniad o'r "amcan mynediad cyfartal" i gynnwys mynediad cyfartal at gyfleoedd pysgota;
- Mae diwygiad 73 yn ehangu'r "amcan newid hinsawdd";
- Mae diwygiad 72 yn diffinio'r amcanion "ased cyhoeddus" a "diogelwch a'r gweithlu"

31. Byddai Cymal 2 (diwygiad 62) yn ychwanegu gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod gerbron y Senedd ddatganiad blynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion pysgodfeydd. Nid yw'n glir a fyddai'r adroddiad arfaethedig yn ymwneud â Lloegr neu'r Deyrnas Unedig. .
32. Bydd Cymal 3 (diwygiad 63) yn ei gwneud ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu system ar gyfer datrys anghydfod rhwng yr awdurdodau polisi pysgodfeydd a fyddai fel arall yn arwain at fethu cyhoeddi cyd-ddatganiad pysgodfeydd. Byddai diwygiadau 64 a 65 yn sicrhau bod y cyd-ddatganiad pysgodfeydd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd yn hytrach na phob chwe blynedd.
33. Mae Cymal 7 (diwygiad 68 yn newid y cyfeiriad at y "dystiolaeth wyddonol sydd ar gael" i'r "orau sydd ar gael".
34. Mae Cymal 9 (diwygiad 69) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod polisi pysgodfeydd, pan fydd yn gweithredu ar ei ben ei hun i gyflwyno darpariaeth drosiannol, ymgynghori gyntaf ag awdurdodau polisi pysgota eraill i sicrhau y llunnir polisïau mewn modd cydgysylltiedig.
35. Mae Cymal 12 (diwygiad 80) yn ei gwneud yn glir nad yw cwch pysgota tramor yn cyflawni trosedd os yw'n mynd i mewn i ddyfroedd Prydain neu'n aros ynddynt oherwydd amodau sy'n peri perygl i fywyd neu eiddo.
36. Mae Cymal 26 (diwygiad 82) yn ychwanegu mynediad at lefelau uwch o stociau rhywogaethau sy'n adfer gan bysgotwyr hamdden at y rhestr o bethau y mae'n rhaid i awdurdodau pysgodfeydd genedlaethol eu hannog drwy roi cymhellion pan fyddant yn dyrannu cwotâu dalfa a chwotâu ymdrech.

37. Byddai Cymal 54 (diwygiad 83) yn newid teitl byr y Ddeddf i Ddeddf Pysgodfeydd Cynaliadwy 2020.
38. Bydd angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau uchod oherwydd, os cytunir arnynt, y byddent yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu oherwydd y byddent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y diwygiadau a gyflwynwyd ar gyfer y Bil**

#### *Diwygiadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth (yn nhrefn y cymalau)*

39. Cafodd diwygiadau 1 – 60 a Chymal 1 newydd i gyd eu cyflwyno gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, ac felly, byddwn ni o blaid eu cynnwys yn y Bil. Cafodd diwygiadau 1 a 2 eu hystyried ar ddiwrnod cyntaf y Pwyllgor a chytunwyd arnynt. Mae ein safbwynt ar bob un o'r diwygiadau fel a ganlyn:
40. Diwygiad 1 – mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy. Mae wrth wraidd ein dull gweithredu ar gyfer rheoli pysgodfeydd, sy'n cyd-fynd â'n dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth flaenllaw Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i sicrhau datblygu cynaliadwy pan fyddwn yn cyflawni ein nodau llesiant, ac yn rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Bydd ein polisiau o fewn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn adlewyrchu'r dyletswyddau hyn a'n hymrwymiad cryf i sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.
41. Diwygiad 2 – mae angen y diwygiad hwn i estyn yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd o 18 mis i 24 mis, i alluogi cymryd yr holl gamau sydd eu hangen mewn pryd, ac i gynnwys cyfnodau cyn etholiadau Senedd yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn 2021 a 2022. Mae'r camau'n cynnwys ymgynghoriad statudol a chraffu gan bob deddfwrfa. Fis diweddf lanswyd proses ymgysylltu â rhanddeiliaid i ategu'r drafftio.
42. Diwygiad 5 – rydym yn bwriadu datblygu polisi Cymru ymhellach mewn perthynas â'r gofyniad i ddangos cyswllt economaidd, fel rhan o'n dull cyfannol ar gyfer datblygu ein polisiau pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol, yn ddarostyngedig i graffu gan y Senedd. Felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.
43. Diwygiad 6 – dim ond ar ôl i gyfleoedd pysgota gael eu dyrannu i bob gweinyddiaeth y dylid cynnal unrhyw glustnodi.
44. Diwygiad 7 – rydym yn cytuno bod y newid hwn yn egluro cwmpas yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau o dan gymal 38 neu 40.

45. Diwygiad 8 – mae hwn yn ymwneud â pholisi datganoledig a Gweinidogion Cymru a ddylai benderfynu ar y dull priodol mewn perthynas â Chymru. Rydym yn bwriadu datblygu ymhellach bolisi Cymru mewn perthynas â monitro electronig mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion a chyd-destun fflyd Cymru, felly, nid oes angen y ddarpariaeth hon ar gyfer Gweinidogion Cymru ym Mil y DU.
46. Ystyrir bod diwygiad 9 yn ddisgrifiad mwy cywir.
47. Mae diwygiadau 22 – 23 yn gwneud newidiadau technegol angenrheidiol.
48. Mae angen diwygiad 27 gan ei fod yn diweddarau'r diffiniad o "swyddogaeth drwyddedu" i gynnwys swyddogaethau o dan Gymal 16.
49. Bydd diwygiadau 29 – 35 yn atal unrhyw fwch trwyddedu sylweddol ar gyfer cychod tramor. Cyflwynir diwygiadau tebyg i'r rheoliadau cyfatebol sy'n berthnasol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (diwygiadau 36 – 47).
50. Diwygiad 48 – bydd yr Offerynnau Statudol yn cael eu disodli gan ddarpariaethau'r Bil ac nid oes eu hangen mwyach.
51. Mae angen diwygiad 49 fel darpariaeth drosiannol i sicrhau bod y gyfundrefn drwyddedu yn y Bil yn gweithio'n gywir.
52. Mae diwygiad 50 yn fân eglurhad o gwmpas pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan baragraff 6 neu 8 o Atodlen 8 mewn perthynas â chychod pysgota o Gymru y tu allan i barth Cymru.
53. Mae diwygiad 52 yn gwneud newidiadau technegol bach ond angenrheidiol.
54. Mae diwygiad 53 yn dirymu SMEFF gan y byddai'n creu dyblygu o fewn y system drwyddedu. Rydym yn fodlon bod y darpariaethau yn y Bil yn golygu nad oes angen Rheoliad SMEFF mwyach.
55. Diwygiad 55 a Chymal 1 newydd a'r Atodlen 1 newydd – o Ionawr 2022 ni fydd Deddf Diogelu Mamaliaid Morol UDA yn caniatáu mewnfario pysgod oni bai eu bod yn dod o bysgodfeydd nad ydynt yn caniatáu lladd mamaliaid morol yn fwriadol. Cefnogir y diwygiad hwn i'r Ddeddf Gwarchod Morloi.
56. Mae angen diwygiad 57 (a 54, 56 a 58 – pwerau cyfatebol ar gyfer pob pysgodfa) i sicrhau bod darpariaethau'r cynllun cymorth ariannol yn adlewyrchu'r gofynion presennol o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i gyhoeddi gwybodaeth, ac rydym yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol presennol ar ddiogelu data

57. Mae angen diwygiadau 59 a 60 i sicrhau bod esemptiadau gwaredu pysgod yn parhau i gael eu defnyddio .

*Diwygiadau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau (yn nhrefn y diwygiadau)*

58. Cafodd diwygiadau 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 71, 72, 74, 75, 76, 77, 78, 79 ac 80 eu hystyried yn ystod diwrnod cyntaf Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a chafodd pob un ei dynnu'n ôl. Ni chytunwyd ar ddiwygiad 73 yn dilyn pleidlais.

59. Mae ein safbwynt ar weddill y diwygiadau (a gyflwynwyd hyd at ac ar 7 Medi, ac na chafodd eu hystyried gan ein Pwyllgor ar ddiwrnod un) fel a ganlyn:

60. Mae eisoes darpariaeth yn y Bil a chyfraith ryngwladol ar gyfer y pwerau a gynnigir yn diwygiad 80.

61. Mae diwygiad 82 yn ymwneud â mater datganoledig. Gan fod darpariaethau'r Bil yn berthnasol i bysgota hamdden a physgota masnachol fel ei gilydd, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol codi proffil un sector uwchben sectorau eraill yn y Bil hwn.

62. Byddai diwygiad 83 yn dderbyniol ac yn cyd-fynd â'n safbwynt ar reoli pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy.

### **Goblygiadau ariannol**

63. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Gymru o ganlyniad i'r ffaith bod y darpariaethau hyn yn cael eu cyflwyno yn y Bil hwn.

### **Casgliad**

64. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddull DU gyfan ar gyfer creu'r Fframwaith Pysgodfeydd, a dim ond drwy Bil ar gyfer y DU y gellir gwneud hynny. O ran y pwerau yn y Bil nad ydynt yn rhan o'r fframwaith, mae'n bwysig y gall gweinidogion Cymru weithredu mewn modd cyflym a phenderfynol yng Nghymru, nes ein bod yn gallu cyflwyno Bil cynhwysfawr ar gyfer Pysgodfeydd Cymru.

65. Rydym o blaid yr holl ddiwygiadau a gyflwynwyd ar gyfer y Bil gan y Llywodraeth, ac mae ein safbwynt ar y diwygiadau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau wedi cael ei amlinellu uchod.

66. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a phob aelod o'r Senedd yn dilyn cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, cyn y ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sydd wedi cael ei threfnu ar gyfer 29 Medi.



67. Byddaf yn rhannu canlyniadau'r trafodion, y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil ac unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen i helpu'r Senedd i ystyried goblygiadau'r Bil ar gymhwysedd deddfwriaethol.

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Medi 2020**